

ARGYFWNG MOSUL



**Gwelsoch y lluniau dychrynlyd
Clywsoch yr hanesion dirdynol
Dyma gyfle i roi help ymarferol**

Rhowch y nwyddau yn llofft y capel

CYN Mai 14eg

Ysgrifennwch SVP ar y bag

(rhag cymysgu gyda chasgliadau eraill)

Rydym angen...

Cewynnau untro

Eli Sudocrem

Cadachau Sychu (Baby wipes)

Diolch yn fawr!!



YMGYRCH RYNGWLADOL RHWNG GWAHANOL ENWADAU A CHREFYDDAU I HELPU'N YMARFEROL

Y CEFNDIR

Rydym yn cydweithio unwaith eto gydag elusen **St Vincent de Paul**, yn eu hymdrechion i leddfu ychydig ar amgylchiadau enbydus pobl gorllewin Mosul, sy'n gaeth yn eu dinas eu hunain. Mae'r ddinas wedi bod dan bawen ddur ISI ers 2014, ac er i luoedd llywodraeth Irac ryddhau'r rhannau dwyreiniol fis Ionawr eleni, parhau mae'r frwydr waedlyd i adennill grym yn y gorllewin, gyda dros 600,000 o bobl mewn perygl difrifol a miloedd ar filoedd yn ceisio dianc rhag yr holl ymladd.

Mae **Adventist Help** wedi sefydlu Uned Argyfwng y tu allan i'r ddinas er mwyn darparu gwasanaeth meddygol bob awr o'r dydd a'r nos, bob diwrnod, i'r bobl sy'n dioddef. Mae'r tîm yn byw mewn uned ddiogel yn Erbil, gydag asiantaethau gwirfoddol eraill, a lluoedd Cwrdaidd yn eu diogelu. Mae rheolau diogelwch llym mewn grym a llawer o fonitro er mwyn sicrhau bod y daith awr i'r Uned Argyfwng ar gyfer shiftiau hir mor ddiogel â phosib.

Mae **St Vincent de Paul** yn cefnogi'r ymgyrch yma drwy ddarparu nwyddau meddygol a hylendid ar eu cyfer, a'n gobaith ni yw cyfrannu drwy ganolbwyntio ar hylendid babanod a phlant bach.

Dros yr wythnosau nesaf, fe fyddwn ni'n casglu cewynnau untro (fel Pampers) cadachau sychu (wipes) ac eli Sudocrem i'w hanfon gyda loriau DHL i ganolfan SVP yng Ngogledd Iwerddon, ar gyfer eu taith i Mosul.

Os ydych chi'n teimlo y gallwch gyfrannu at y casgliad, gofynnwn i chi ysgrifennu SVP ar y bag, rhag i ni ei gymysgu gyda chasgliadau eraill yn y capel, a'i adael yn llofft y capel.

Bydd y casglu'n dod i ben ddydd Sul, Mai 14eg.

Os na allwch weld y ffordd yn glir i gyfrannu nwyddau, **mae croeso i chi gyfrannu'n ariannol**, drwy Carys neu Ann. Bydd hynny'n help mawr gyda chostau cludiant, sy'n gallu bod yn uchel, ond ddim mor uchel â chludo'r holl ffordd i Mosul. Mae cwmni DHL yn hynod o effeithiol a dibynadwy ac yn monitro'r loriau bob cam o'r daith.

Am fwy o wybodaeth:

carys.davies75@btinternet.com ann.pentyrch@btinternet.com